**Dyddiad cyhoeddi:** Medi 2009

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

National Institute for Health and Clinical Excellence

# Pemetrexed fel triniaeth gyntaf ar gyfer canser yr ysgyfaint lle nad yw'r celloedd yn fach

*Mae 'canllawiau arfarnu technoleg' NICE yn rhoi cyngor ar sut a phryd y dylid defnyddio cyffuriau a thriniaethau eraill yn y GIG*

Mae'r daflen hon yn egluro pryd y dylid defnyddio **pemetrexed** fel triniaeth gyntaf ar gyfer pobl sydd â chanser yr ysgyfaint lle nad yw'r celloedd yn fach (NSCLC) yn y GIG yng Nghymru a Lloegr. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol). Nid yw'n cynnwys defnyddio'r pemetrexed i drin mathau eraill o ganser. Cafodd ei hysgrifennu ar gyfer pobl sydd ag NSCLC ond gallai hefyd fod yn ddefnyddiol i'w teuluoedd neu ofalwyr neu unrhyw un sydd â diddordeb yn y cyflwr.

Nid yw'n disgrifio NSCLC na'r triniaethau'n fanwl - dylai eich arbenigwr drafod y rhain gyda chi. Gallwch gael rhagor o wybodaeth gan y sefydliadau a restrir ar dudalen 4.

*Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer NSCLC. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.*

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Caiff pemetrexed ei argymell fel triniaeth bosibl i ganser yr ysgyfaint datblygedig neu fetastatig yn lleol lle nad yw'r celloedd yn fach (NSCLC) os:

- mae'r canser o fath arbennig (adenocarsinoma a charsinoma celloedd mawr) **ac**
- nad yw'r unigolyn wedi cael unrhyw driniaeth am NSCLC cynt.

Ni ddylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi'r gorau i ragnodi pemetrexed ar gyfer pobl nad oes ganddynt adenocarsinoma neu garsinoma celloedd mawr oedd eisoes yn ei gymryd pan gyhoeddwyd y canllawiau. Dylai'r bobl hyn allu parhau i gymryd pemetrexed nes eu bod hwy a'u harbenigwr yn penderfynu ei bod yn addas rhoi'r gorau i'r driniaeth.

## Canser yr ysgyfaint lle nad yw'r celloedd yn fach

Caiff y canser sy'n effeithio ar yr ysgyfaint ei rannu i ddau brif fath yn dibynnu ar sut y mae'n edrych o dan y microsgop: canser yr ysgyfaint lle mae'r celloedd yn fach a chanser yr ysgyfaint lle nad yw’r celloedd yn fach (NSCLC). Mae tri math o NSCLC: canser carsinoma celloedd cennog, adenocarsinoma a charsinoma celloedd mawr.

Canser a gaiff ei ddisgrifio fel bod yn ddatblygedig neu'n fetastatig yn lleol yw canser sydd wedi lledaenu i'r meinweoedd cyfagos neu rannau eraill o'r corff.

Mae symptomau NSCLC yn cynnwys pesychu parhaus, pesychu gwaed, prinder anadl, poen yn y frest, blinder a cholli pwysau.

## Pemetrexed

Mae pemetrexed (a elwir hefyd yn Alimta) yn gyffur gwrth-ganser. Mae'n gweithio drwy ymyrryd ag ensym sydd ei angen ar gelloedd canser i oroesi a lluosi, felly mae pemetrexed yn rhwystro'r canser rhag mynd yn fwy ac yn lladd rhai celloedd canser.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Pan fydd NICE yn argymell triniaeth, rhaid i’r GIG sicrhau ei bod ar gael i’r bobl hynny y gallai eu helpu, fel arfer o fewn 3 mis i gyhoeddi’r canllawiau. Felly, os oes gennych NSCLC sydd yn adenocarsinoma neu garsinoma celloedd mawr, a bod eich meddyg yn credu mai pemetrexed yw’r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG. Gweler www.nice.org.uk/aboutguidance os nad yw'r driniaeth ar gael.

Os ydych eisoes yn cymryd pemetrexed at NSCLC ond nad oes adenocarsinoma neu garsinoma celloedd mawr gennych, dylech allu parhau i'w gymryd nes y byddwch chi a'ch arbenigwr yn penderfynu ei bod yn addas rhoi'r gorau i'w gymryd.

## Rhagor o wybodaeth

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o wybodaeth a chymorth i bobl sydd ag NSCLC. Nodwch nad yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 2020 www.macmillan.org.uk
- The Roy Castle Lung Cancer Foundation, 0800 358 7200 www.roycastle.org

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy.  Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi rhagor o wybodaeth a chymorth i chi. Os ydych yn byw yng Nghymru dylech siarad â Galw Iechyd Cymru am ragor o wybodaeth am bwy i gysylltu â nhw.

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin cyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael am y clefyd a'r triniaethau, barn cleifion a gofalwyr a phrofiadau meddygon, ac yn ystyried y costau cysylltiedig. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut y mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r daflen hon a fersiynau eraill o'r canllawiau a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/TA181*

*Rydym yn annog y GIG a sefydliadau'r sector gwirfoddol i ddefnyddio testun o'r daflen hon yn eu gwybodaeth eu hunain am NSCLC.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**
MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-84936-093-7
N2008 1k 1P Sept 09

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2009. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for

commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.